# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 27 Chwefror 2020**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams. Cydymdeimlwyd gyda'r Cyng. Gwilym Owen ar golli ei gyfnither.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Dyfrig Jones, Mary Jones a Pearl Evans.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**3. Materion Brys**
**3.1** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi.
**3.2** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr. Y ffordd angen sylw.
**3.3** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni.
**3.4** Capel Jerusalem – angen sinc newydd, llifogydd yn aml yno.
**3.5** A5 – sinciau i gyd wedi sigo. Angen hysbysu Cyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd.
**3.6** Capel Bethesda – a felly pentref Bethesda yn dathlu eu daucanmlwyddiant. Bydd angen trefnu digwyddiad i ddathlu. Partneriaeth Ogwen a Neuadd Ogwen yn awyddus i gyd-weithio.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020. Y Clerc i wirio os oes angen cynnwys yr archeb gyda'r cofnodion.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – cais cynllunio ôl-weithredol wedi ei gyflwyno ar gyfer eu gosod. Trafodwyd hefyd mai arwyddion uniaith Saesneg yn unig sydd ar y safle.

**5.2** Cyffordd A5 ger Copa – problem gwelededd gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yn hyn.
**5.3** Lloches bws Sgwar Rachub – cais wedi ei anfon at Cyngor Gwynedd i osod lloches cantilever heb seti ar y safle, ynghŷd a datganiad ysgrifenedig gan breswylydd rhif 3 nad oes ganddo unrhyw wrthynebiad. Disgwyl ymateb Cyngor Gwynedd am beth yw'r cam nesaf.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig o'r holl brosiectau. Adroddwyd hefyd bod y Bartneriaeth wedi cael cadarnhad o'u llwyddiant yn eu cais am arian i Cronfa Cymunedol y Loteri Genedlaethol. Y Cyngor yn llongyfarch y Bartneriaeth ac eisiau diolch i Mel a'r tîm.

**7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021 – y Cyngr. Neville Hughes a Walter Williams wedi mynychu cyfarfod i drafod syniadau ar sut mae'r gwahanol ardaloedd am godi arian. Penderfynwyd trefnu cyfarfod agored nos Iau 2l o Ebrill am 7.00yh, er mwyn cael pwyllgor lleol i godi arian. Lleoliad i'w gadarnhau.
Grŵp Llywio Cefnfaes – trafodwyd cofnodion y cyfarfod. Diolch i Cynan Jones am ei holl waith.

**8. Lwfans blynyddol 2019-20**
Pawb oedd yn bresennol wedi derbyn ffurflen ar gyfer 'optio allan' o dderbyn y taliad, a ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad. Yr aelodau i lenwi pa ffurflen oeddent yn ddymuno. Y Clerc i anfon y ffurflenni at yr aelodau oedd ddim yn bresennol.

**9. Rhoddion 2019-20**
Trafodwyd y rhestr ceisiadau. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn.

| | |
|---|---|
| Llais Ogwan | £400 |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £100 |
| Clwb Henoed Llanllechid | £150 |
| Clwb Drama'r Llechen Las | £100 |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £100 |
| Clwb Cymdeithasol Gerlan | £150 |
| Clwb pêl-droed Ieuenctid Bethesda | £100 |
| Nant Ffrancon Brownies | £75 |
| Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen | £400 |
| Theatr Bara Caws | £250 |
| Gwyl Afon Ogwen | £175 |
| Eglwys Crist Glanogwen | £300 |
| Swyddog Hybu Rygbi | £500 |
| Clwb Criced a Bowlio | £200 |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd | £50 |
| Cylch Meithrin Cefnfaes | £250 |
| Capel Jerusalem | £200 |
| Dawns i Bawb | £50 |
| Ymatebydd Cyntaf Dyffryn Ogwen | £100 |
| | |
| Siop Ogwen | £500 |

| | |
|---|---|
| Caban Gerlan | £1500 |
| Balchder Bro Ogwen | £1000 |

**10. Cynrychiolydd Ynni Ogwen**
Y Cyng. Bleddyn Williams yn awyddus cael rhywun yn ei le fel cynrychiolydd, gan ei bod yn chael hi'n anodd i fynychu'r cyfarfodydd. Penderfynwyd rhoi ar yr agenda eto mis nesaf.

**11. Toriadau gwair ychwanegol**
Adroddwyd bod anfonebion wedi cyrraedd am y toriadau ychwanegol ar gyfer 2019-20 ac 2018-19. Roedd yr anfoneb ar gyfer 2019-20 yn anghywir gan ei fod yn cynnwys mae na 2 doriad ychwanegol mewn rhai ardaloedd. Y Clerc yn disgwyl yr anfoneb newydd.
Nid oedd y Cyngor yn fodlon talu'r anfoneb am 2018-19 gan nad oedd y gwaith yma wedi ei gyflawni.
Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon ariannu 2 doriad ychwanegol am y flwyddyn 2020-21.

**12. Cae chwarae Pantdreiniog**
Y Cyngor yn awyddus i fynd ymlaen gyda'r offer newydd. Y Clerc i chwilio am 2 bris arall ar gyfer y llawr.

**13. Maes parcio Gerlan**
Ar ôl gwirio Rheoliadau Ariannol y Cyngor, penderfynwyd os bydd y pris gan YGC yn llai na £25,000 bydd Cyngor(drwy Partneriaeth Ogwen) yn fodlon eu cyfarwyddo i gario ymlaen gyda'r gwaith.

**14. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2020'
**14.1** E-bost gan Cadw Cymru'n Daclus – Lleoedd Lleol ar gyfer natur - anelu at greu, adfer a gwella cannoedd o gynefinoedd ledled y wlad. Y Cyngor yn awyddus cael un o'r pecynnau ar gyfer Llys Dafydd.
**14.2** E-bost gan y Cyng. Rheinallt Puw – llun o dô lloches bws Adwy'r Nant. Y Clerc i gael prisiau ar gyfer ei drwsio.
**14.3** E-bost gan Un Llais Cymru – manylion aelodaeth 2020-21. Penderfynwyd bod y Cyngor am fod yn aelod.
**14.4** E-bost gan Cadw Cymru'n Daclus ynglŷn a'r ymgyrch Gwanwyn Glân Cymru 20 Mawrth – 13 Ebrill. Balchder Bro am gyd-weithio gyda Partneriaeth Ogwen/Dyffryn Gwyrdd.
**14.5** E-bost gan Cyngor Gwynedd – ymateb i'n sylwadau ar y parcio ger Ysgol Llanllechid. Y Clerc i ymateb.
**14.6** E-bost gan Cyngor Gwynedd – ymateb i'n cwynion am y parcio yn Hen Barc/Lôn Newydd. Swyddog am asesu'r safle maes o law.
**14.7** E-bost gan y Cyng. Ann Williams ynglŷn a coeden wedi disgyn ar y llwybr rhwng Bontuchaf a Frondeg. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
**14.8** E-bost gan y Cyng. Ann Williams – wedi derbyn cwynion am bysiau Arriva unwaith eto, yn hwyr neu ddim yn troi fyny. Y Clerc i anfon llythyr cwyn at Arriva a Cyngor Gwynedd.
**14.9** E-bost gan y Cyng. Ann Williams – cwynion wedi eu derbyn unwaith eto am feiciau modur yn gyrru fyny ac i lawr John Street. Yn anffodus, does dim byd pellach gall y Cyngor ei wneud.

**14.10** E-bost gan Mr Roberts ynglŷn a defnydd o'r Gorffwysfan. Penderfynwyd anfon gwahoddiad iddo fynychu, ar fore dydd Llun mae hi fwyaf prysur yno.
**14.11** E-bost gan Ieuan Wyn – cais i'r Cyngor Cymuned baentio 2 furlun ar y waliau llechi o flaen Llys Dafydd. Yn anffodus, rydym wedi cael cyngor gan arlunydd proffesiynol nad yw'r llechi yn addas ar gyfer eu paentio. Ond y Clerc i'w hysbysu bod cynlluniau ar y gweill i gael murluniau ar y Stryd Fawr.
**14.12** Grisiau ger y toiledau cyhoeddus – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.
**14.13** Blwch post Braichmelyn – y Cyng. Paul Rowlinson wedi cael gwybod gan y Post Brenhinol eu bod yn gobeithio ail-osod y blwch yn yr wythnosau nesaf.
**14.14** Blwch post ger Londis – cwynion am amser casglu'r blwch. Y Clerc i holi'r Post Brenhinol am gael ei newid.

**15. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C18/1159/13/AM**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Cais amlinellol-ar y gweill. |

**C19/1203/13/DT**

| | |
|---|---|
| Heulwen, 23 Ystad Coetmor, Bethesda | Cais ar gyfer codi estyniad deulawr gyda tô grib yng nghefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0068/13/CT**

| | |
|---|---|
| 18 Braichmelyn, Bethesda | Cais ar gyfer torri 4 coeden wedi eu lleoli o fewn Ardal Gadwraeth.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**
**C20/0098/13/DT**

| | |
|---|---|
| 2 Tŷ'n Ffridd, Rachub | Dymchwel yr estyniad presennol a chodi estyniad un llawr newydd yn ei le ar y talcen<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**C20/0138/13/LL**

| | |
|---|---|
| Llaethdy Gwyn, Abercaseg, Bethesda | Cais llawn ar gyfer codi estyniad unllawr cefn a gosod paneli solar ar y tô.<br>**Penderfyniad:** Cefnogi 100% |

**C20/0018/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda | Codi 7 annedd preswyl ar gyfer yr henoed ynghyd â llecynnau parcio a man troi.<br>**Penderfyniad:** Cefnogol mewn egwyddor, ond angen sicrhau nad oes mynediad oddi ar yr A5, ac hefyd bod y coed hen yn cael eu diogelu. |
| **C20/0057/16/LL**<br>Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda | Lleoli 4 cynhwysydd dros dro i'w defnyddio ynghlwm â'r trac cartio newydd<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**16. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Chwefror) | £284.57 |
| CThEM (Chwefror) | £71.20 |
| Partneriaeth Ogwen | £786.62 |
| Ysgol Penybryn (rhodd ffilmio) | £250.00 |
| Einir Williams (ysgythru'r darian) | £19.99 |
| Barbwr Ogwen (Ysgol Llanllechid) | £100.00 |
| Siop Ogwen | £50.00 |
| Serena | £25.00 |